

# Adolygiad Diogelu Unedig Unigol

Goleuo'r gorffennol i wneud y dyfodol yn fwy diogel



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## BRIFFIAD 7 MUNUD

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, anfonwch e-bost at: [SUSRWales@llyw.cymru](mailto:SUSRWales@llyw.cymru)

### CEFNDIR

Creu proses adolygu unigol lle mae angen ymagwedd amlasiantaeth, gan gynnwys y prosesau adolygu canlynol: Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plant; Adolygiad Dynladdiad Domestig; Adolygiad Dynladdiad Iechyd Meddwl; Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol. Defnyddir yr adroddiad terfynol i hysbysu arfer proffesiynol drwy Ystorfa Ddiogelu Cymru.

### CANLLAWIAU STATUDOL ADDU

- Mae'r Tîm ADDU yn ystyried dyddiadau ar gyfer sesiynau ymgysylltu. Bydd hyn yn rhoi cyfle i randdeiliaid roi adborth ar y Canllawiau Statudol ADDU drafft.
- Mae'r tîm yn ystyried yr ymagwedd orau tuag at gynnwys adrannau ar droseddwyr a hunanladdiad er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn briodol.

### CYNNYDD HYD YN HYN

- Cyflwynir y camau nesaf ar gyfer y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Llywio i'w hystyried.
- Mae'r Tîm ADDU yn parhau i gyfathrebu â Llywodraethau Awstralia, Seland Newydd a'r Alban.
- Mae'r Tîm ADDU yn gweithio ar Gynllun Cyfathrebu i gyd-fynd â'r cynllun prosiect cyffredinol.
- Mae gwaith yn parhau er mwyn datblygu'r cynnwys ar gyfer y dudalen we ADDU. Bydd y dudalen hon ar wefan Llywodraeth Cymru.

### DYNLADDIAD ARFAU BYGYTHIOL

- Bydd y grŵp Gorchwyl a Gorffen Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol yn cwrdd eto cyn hir. Bydd hyn yn parhau â thrafodaethau o gwmpas integreiddio'r broses ADAB i mewn i'r system ADDU.

### POLISI'AU A PHROSESAU

- Mae tîm Ystorfa Ddiogelu Cymru wedi adolygu'r templed adroddiad ADDU er mwyn sicrhau ei gyfatebiaeth. Mae gwaith yn parhau er mwyn sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y diben.

### MATERION CYFREITHIOL A LLYWODRAETHU

- Mae gwaith yn mynd rhagddo ar gytundeb cyd-reolwr data rhwng Prifysgol Caerdydd a Llywodraeth Cymru ar gyfer Ystorfa Ddiogelu Cymru.

### DYSGU A DATBLYGU

- Ar hyn o bryd mae Tîm ADDU yn gweithio gyda'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i nodi'r dull mwyaf priodol o ddatblygu Deunyddiau Hyfforddi ADDU.

### YSTORFA DDIOGELU CYMRU

- Mae'r ysgoloriaeth ymchwil yn dod i ben, ac mae gwaith wedi'i gwblhau ar y deunyddiau hyfforddi YDdC. Mae ystyriaethau ar gyfer y Cytundeb Defnyddwyr hefyd wedi cychwyn.

### DYNLADDIAD IECHYD MEDDWL

- Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Dynladdiad Iechyd Meddwl yn cwrdd eto cyn hir. Bydd trafodaethau'n parhau er mwyn sicrhau bod y gofynion Dynladdiad Iechyd Meddwl yn cydweddu â'r broses ADDU.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg